**RHESTR TESTUNAU**

# EISTEDDFOD GADEIRIOL

# TREUDDYN

**1863-1952, 1975-2019, 2023….**

** Gwobr £100 **

Perfformiad mwyaf addawol

* Cerdd
* Adrodd
* Offerynol

## NEUADD YR YSGOL
## DYDD SADWRN,
## 11eg. o HYDREF, 2025

Drysau'n agor am 10.30y.b.

**Yr Eisteddfod i gychwyn am 11.00 y.b. (dan 5 i 11oed) ac am 6 o'r gloch y.h. (dros 11oed)**

Mynediad: Oedolyn Pnawn £3, Nos £5 (Tocyn Dydd a Nos £6), Plant Ysgol am Ddim

## BEIRNIAID

### CERDD, OFFERYNNOL, ALAW WERIN, CERDD DANT, EMYN DÔN

Nia Morgan, Y Bala

### ADRODD

Rhian Iorwerth, Rhuthun

### LLÊN A LLÊN IEUENCTID

Marc Lloyd Jones, Yr Wyddgrug

### ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN

Ann Williams, Llanfynydd

## CYFEILYDDION

Christopher Enston, Treuddyn

## CYFEILYDD CERDD DANT (ar y piano)

Christopher Enston, Treuddyn

## ARWEINYDDION

Meilir Ashford, Yr Wyddgrug; Olwen Corben, Corwen
Ioan Rhys Jones, Yr Wyddgrug; Traddodi'r Cadeirio Hywel Wyn Edwards, Sychdyn.

## MANYLION CYSYLLTU

MRS. BETHAN WYN JONES, Glanffrwd, 42 Ffordd Rhuthun,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1QH
**01352 758162**
MRS HELEN ROBERTS 07508 705985
eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com

1. **BYDD CYSTADLEUTHAU LLÊN 1 – 8 A CHYFANSODDI EMYN DÔN YN AGORED I BOB OEDRAN, YN ÔL YR ARFER.**

2. **GWOBRWYO SÊR EISTEDDFOD TREUDDYN 2025**
   **CYNNIGIR GWOBRAU YCHWANEGOL I'R RHAI A NODIR YN Y RHESTR TESTUNAU, AM Y PERFFORMIADAU LLWYFAN MWYAF ARBENNIG :**
   **£100 I'R ADRAN GERDD A CHERDD DANT**
   **£100 I'R ADRAN ADRODD**
   **£100 I'R ADRAN OFFERYNNOL**
   ***Sylwer ar RHEOL CYSTADLU 02 isod.**

3. **PRIS MYNEDIAD CÔR £30.00 (sieciau'n daladwy i Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn) erbyn 27.09.25.**

   **Ar ôl derbyn enwau'r corau gyda'r nifer o gantorion ymhob côr – erbyn 27.09.25 – anfonir tocynnau i'r arweinydd / person cyswllt i'w dosbarthu i aelodau'r côr i'w dangos wrth ddrws mynediad i'r Eisteddfod.**

## RHEOLAU CYSTADLU

1. **RHAID bod yn yr oedran priodol ar yr 31ain. o Awst, 2025.**
2. **Bydd dyfarniad y BEIRNIAD yn derfynol a bydd gan y beirniad yr hawl i rannu, leihau neu atal gwobr.**
3. **RHAID i ymgeiswyr y cystadleuthau hunan-ddewisiad sicrhau bod copi i'r beirniad a'r cyfeilydd. Bydd gan y cyfeilydd yr hawl i wrthod cyfeilio os nad yw wedi derbyn y copi bythefnos o flaenllaw, h.y. ERBYN DYDD SADWRN y 27ain. o Fedi 2025.**

   **CYFEILYDD : Bydd rhyddid i blant dan 11oed, unigol, partion, offerynnol a chorau, ddod â'u cyfeilyddion eu hunain.**

   ******* Mae gwneud copi o gerddoriaeth/ o lenyddiaeth / o ryddiaeth argraffedig dan hawlfraint yn anghyfreithlon. *******

4. **LLEFARU I DDYSGWYR**
   **(Adran Adrodd rhif 5, 6, 9, 12 ac 13)**
   **Cystadleuaeth sydd yn agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r iaith Gymraeg fel oedolyn ac i ddisgyblion ysgol nad ydynt wedi derbyn addysg gyfrwng Gymraeg.**
5. **OS YN POSTIO CEISIADAU DYLID CYNNWYS AMLEN O'R MAINT CYWIR GYDA STAMP O'R GWERTH CYWIR I'W DDERBYN GAN YR YSGRIFENYDDES I BWRPAS DYCHWELYD Y CYFANSODDIADAU A'R BEIRNIADAETHAU LLÊN ERBYN DIWEDD MIS TACHWEDD 2025 AR ÔL YR EISTEDDFOD.**
   **NI ELLIR DYCHWELYD GWAITH NA GWOBRAU OS NAD OES FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD GAN YR YSGRIFENYDDES. (Gellir hefyd ymgeisio drwy e-bost)**
6. **Cynhelir cystadleuthau dan 11oed yng nghyfarfod y prynhawn.**
7. **Bydd rhagbrawf dros 11oed a than 15 oed yn unig os bydd angen**
8. **Cymraeg fydd iaith y llwyfan.**
9. **Bydd gan y pwyllgor hawl i newid y trefniadau fel bo gofyn.**
10. **Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled a all ddigwydd mewn cysylltiad â'r Eisteddfod.**

*

**11. RHAID i'r CYFANSODDIADAU LLÊN a'r EMYN DÔN ddod i law Y BEIRNIAD PENODOL neu ei anfon at e-bost yr Eisteddfod erbyn DYDD LLUN 15fed. o FEDI 2025 yn DDIFFAEL**

**●Ni sicrheir beirniadu gwaith ar ôl y dyddiad hwn.**

**●Cymraeg fydd iaith y cyfansoddiadau llenyddol.**

**(A) LLÊN 1 – 11 (oedolion a ieuenctid) – i law : Mr. Marc Lloyd Jones, Cae Mai, Y Gilfach, Bryn Teg, Yr Wyddgrug, CH7 1XJ neu at eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com ERBYN Dydd Llun 15 o Fedi 2025**

**FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.**

**(Ar gyfer ceisiadau e-bost dylid cynnwys manylion y cystadleuydd a ffug enw o fewn yr e-bost - bydd yr Eisteddfod yn anfon ceisiadau ymlaen yn anhysbys i'r beirniad).**

**(B) GWAITH ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN I'R YSGRIFENYDDES erbyn Dydd Llun 29 o Fedi 2025 FAN BELLAF.**

**FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.**

**Mae angen i'r oedran a ffugenw yn unig fod yn glir ar gefn pob ymgais h.y. dan 5; 5-7; 7-9; neu 9-11.**

**SYLWER : Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am ddychwelyd gwaith yn Adran (B) i'r ymgeiswyr. Bydd angen casglu'r gwaith o Ysgol Terrig cyn diwedd mis Tachwedd 2025.**

**(C) EMYN DÔN – i law :** Nia Morgan, Ger y Llyn, 41 Heol Tegid, Y Bala LL23 7EH. **ERBYN Dydd Llun 15fed. o Fedi, 2025. FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.**

## CYSTADLEUAETH CYFANSODDI TÔN ADDAS…

**… i'r geiriau isod o waith Awen Powell, Yr Wyddrug**

**(Rhoddir copi o'r alaw fuddugol i'r bardd).**

1. Dy hedd fo Dduw dros ddaear gron
trwy D'obaith pur
a thro pob calon drist yn llon
â'th obaith pur.
Boed inni roi help llaw i frawd
sy'n dioddef newyn, gorthrwm, gwawd
i'w godi'n uwch na'i gyflwr tlawd
at obaith pur.

2. Mae'r byd yn aros am dy nerth
a'th obaith cryf
yn cofio am dy Fab a'i werth,
ein gobaith cryf.
Fel byddi Di yn agosau
i wella ac i wir iachau
fe fyddwn wedi'n bywiocau
mewn gobaith cryf.

3. Mae'n Bethlem ynot Ti, o Dduw
ein gobaith glân,
ateb ein gweddi am ein byw
â'th obaith glân.
Doed golau'r seren atom ni
i'n harwain fel y doethion dri
a'r bugail wedi'r disglair li
at obaith glân.

Awen Powell, Yr Wyddgrug.

**MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 4ydd. o HYDREF 2025.**

# ADRODD

**1. Dan 5 oed :** **Yr Ysgol**

Dw i'n hoffi mynd i'r ysgol
i gael stori fawr a chân,
i ddarllen map a lliwio llun
Ond dw i wedi blino'n lân!

**Bethan Jones**

*Medal a £5.00 i'w rannu*

**2. Dros 5 a than 7 oed :** **DW I EISIAU Tudur Dylan**
**Byd llawn hud - Mererid Hopwood; Gwasg Gomer**

*Medal a £5.00 i'w rannu*

**3. Dros 7 a than 9 oed :** **Pam nad ydi awr yr un hyd bob tro? Margiad Roberts, Salwch Odli PENILLION 1,2,4 a 6, Carreg Gwalch**

*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**4. Dros 9 a than 11 oed :** **Y Bwbach Drwg Dwyn Sanau, Alys Jones, t.100 Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Cyffiniau 2015r**

*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**5. Dysgwyr dan 9 oed :** **Dw i'n hoffi..., Mair Elwyn**
**Sgram, Non ap Emlyn (gol) Cyngor Llyfrau Cymru**

*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**6. Dysgwyr dros 9 a than 11 oed :**
**Bwyd, Mair Elwyn.**
**Sgram, Non ap Emlyn (gol) Cyngor Llyfrau Cymru**

*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**7. Parti dan 11 oed (llai na 100 yng CA2):** **HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*

**8. Parti dan 11 oed (mwy na 100 yng CA2):**
**HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*

**9. Parti Dysgwyr dan 11 oed:** **HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*

**10. Dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*

**11. Dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £25.00; £15.00*

**12. Dysgwyr dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*

**13. Dysgwyr dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**

*Tlws a £25.00; £15.00*

**14. Adrodd neu gyflwyniad llafar Mewn Cymeriad Oed 16 - 25 (hyd at 5 munud)**

Tlws a *£25.00; £15.00*




** Gweler Cystadleuaeth Rhif 14*

# OFFERYNNOL

**[pob cystadleuaeth : HUNANDDEWISIAD]**

1. **Unawd piano dan 11 oed** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
2. **Unawd offerynnol (ag eithrio piano) dan 11oed**
   *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
3. **Unawd piano dros 11 oed a than 15 oed**
   *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
4. **Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 11 a than 15oed**
   *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
5. **Unawd piano dros 15 a than 21 oed (hyd at 7 munud)**
   *Tlws a £25.00; £15.00*
6. **Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 15 a than 21oed (hyd at 7 munud)**
   *Tlws a £25.00; £15.00*
7. **Deuawd piano neu offerynnol dan 21 oed** *Tlysau a £30.00; £15.00*
8. **Unawd piano neu offerynnol agored (heb fod dros 7 munud)**
   *£25.00; £15.00*

# CERDD

1. **Unawd dan 5 oed : SALI MALI**
   **Falyri Jenkins, Caneuon Codi Bawd a Dweud Helo, Y Lolfa**
   *Medal a £5.00 i'w rannu*
2. **Unawd dros 5 a than 7 oed : SIOPA**
   **Leah Owen, Mae gen i gân ( Pennill 1 a 2), Curiad**
   *Medal a £5.00 i'w rannu*
3. **Unawd dros 7 a than 9 oed : FFRINDIAU**
   **Gwennant Pyrs, Ffrindiau, Curiad**
   *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
4. **Unawd dros 9 a than 11 oed : Y TYWYDD**
   **Leah Owen: Codi'r Tô, Curiad**
   *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
5. **Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion llai na 100 yng CA2):**
   **HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*
6. **Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion mwy na 100 yng CA2)**
   **HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*
7. **Unawd dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**
   *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
8. **Unawd dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**
   *Tlws a £25.00; £15.00*
9. **Deuawd dan 21 oed : HUNANDDEWISIAD**
   *Tlysau a £30.00; £15.00*
10. **Unawd agored : HUNANDDEWISIAD** *£25.00; £15.00*
11. **Unawd digyfeiliant agored : HUNANDDEWISIAD** *£25.00; £15.00*
12. **Côr agored heb fod llai nag 20 o leisiau, heb fod yn hwy na 10 munud, i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro** *£100.00*

**PWYSIG**
**Gweler Rheolau Cystadlu : RHEOL 03**
**RHAID i'r Cyfeilydd dderbyn copïau o'r caneuon a ddewisir gan y cystadleuwyr ar gyfer cystadlaethau 4-10. Anfoner y rhain at – Christopher Enston, Hillgrove, Ffordd Corwen, Treuddyn, Yr Wyddgrug, CH7 4LD erbyn Dydd Sadwrn yr 27ain. o Fedi, 2025.**

# CERDD DANT

## [pob cystadleuaeth – hunanddewisiad]

**Y CYSTADLEUWYR I SICRHAU COPI I'R CYFEILYDD YN Y CYWEIRNOD CYWIR**

1. **Unawd dan 11 oed :** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
2. **Unawd dros 11 a than 15 oed :** *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
3. **Unawd dros 15 a than 21 oed :** *Tlws a £25.00; £15.00*
4. **Unawd Agored :** *£25.00; £15.00*

# EMYN DÔN

**Cystadleuaeth cyfansoddi tôn addas i'r geiriau (Gweler Tudalen 3, Adran 10 (C)) o waith Awen Powell, Yr Wyddgrug.** *£12.00; £8.00*

**BYDD CAMPWAITH Y CELFYDDYDAU YN DERBYN TLWS AM FLWYDDYN A THLWS BACH I'W GADW**

## ARLUNIO

**THEMA : Anifail**

1. **Dan 5 oed : Pysgydyn** *£5.00 i'w rannu*
2. **Dros 5 a than 7 oed : Aderyn** *£5.00 i'w rannu*
3. **Dros 7 a than 9 oed : Anifail Anwes** *£10.00 i'w rannu*
4. **Dros 9 a than 11 oed : Anifail Fferm** *£10.00 i'w rannu*
5. **Dros 11 a than 18 oed: Anifail** £10.00 i*'w ran*

## CREADIGOL

**THEMA : Gardd o ddefnydd ailgylchu**

1. **Dan 9 oed :** *£10.00 i'w rannu*
2. **Dros 9 a than 11 oed :** *£10.00 i'w rannu*
3. **Dros 11 a than 18 oed:** £10.00 i*'w rannu*

## LLAWYSGRIFEN

1. **Dan 9 oed : Hen Wlad fy Nhadau (1 Pennill a'r gytgan)** *£10.00 i'w rannu*
2. **Dros 9 a than 11 oed : Hen Wlad fy Nhadau (3 Pennill a'r gytgan)** *£10.00 i'w rannu*

## LLÊN

**01 – 08 : OED AGORED**

**09 – 11 : LLÊN IEUENCTID**

**Gweler Rheolau Cystadlu : RHEOL 10(A) tudalen 3**

**Cystadlaethau 01 – 11 (ieuenctid ac oedolion) at y beirniad :**

**MARC LLOYD JONES,**

**Cae Mai, Y Gilfach, Bryn Teg, Yr Wyddgrug, CH7 1XJ**

**ERBYN DYDD LLUN y 15fed. o Fedi 2025**

1. **CYSTADLEUAETH Y GADAIR (Un gerdd, casgliad o gerddi neu ddilyniant, caeth neu rydd, heb fod dros 150 llinell) DARLUN / DARLUNIAU** *£50.00*
   *model o gadair o waith Mr. John Parry, Penrhyndeudraeth.*
2. **ENGLYN GORCHEST** *£10.00; £5.00*
3. **DYCHANGERDD / CERDD DDONIOL MEWN TACSI** *£10.00; £5.00*
4. **EMYN GODDEFGARWCH** *£10.00; £5.00*
5. **TELYNEG DYLETSWYDD** *£10.00; £5.00*
6. **STORI FER TORIAD GWAWR** *£25*
7. **LIMRIG WRTH EDRYCH DRWY'R FFENEST UN BORE …..** *£10.00; £5.00*
8. **3 PENNILL TELYN / TRIBAN BEDDARGRAFF** *£10.00; £5.00*

**9. Dan 11 oed (ysgol gynradd hyd at Bl. 6)**

**Y DIWRNOD MAWR** *£5.00; £3.00; £2.00*

**10. 11 – 15 oed (ysgol uwchradd Bl. 7 – Bl. 10)**

**HELYNT** *£7.00; £5.00; £3.00*

**11. 15 - 19 oed DAU DDARN O WAITH YSGRIFENEDIG**

*Tlws Papur Fama am flwyddyn a £10.00; £5.00*

**MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 4ydd o HYDREF 2025.**




** Gweler cystadleuaeth Cerdd rhif 12eg, tudalen 6.*